

# CWESTIYNAU CYFFREDIN – DYFODOL CANOLFANNAU ORIAU DYDD

## FAQ – THE FUTURE OF COMMUNITY DAY CENTRES



### Sut mae gwasanaeth Canolfannau Oriau Dydd yn edrych heddiw?

Rydyn ni'n ymgynghori ar y 4 Canolfan Oriau Dydd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r canolfannau yma yn darparu prydau poeth bob dydd a rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl dros 50 oed. Mae nifer y prydau sy'n cael eu darparu yn fach iawn. Mae cymhorthdal net pob pryd yn amrywio o £7.38 (Y Gilfach-goch) i £16.82 (Canolfan Oriau Dydd Nazareth, Trewiliam) ac mae'r gost i'r Cyngor yn cynyddu'n raddol wrth i nifer y bobl sy'n defnyddio'r canolfannau ostwng.

### What does the Day Centre service look like today?

We are consulting on the 4 Community Day Centres located across the County Borough. These provide daily hot meals and a programme of activities for people over 50 years of age. Numbers of meals provided are very low. The net subsidy per meal ranges from £7.38 (Gilfach Goch) to £16.82 (Nazareth Day centre, Williamstown) and the cost to the Council is gradually increasing as usage declines.

Canolfan Gymuned Oriau Dydd Community Day Centre		Nifer y prydau bob dydd (ar gyfartaledd) Average meals per day		
		2016/17	2017/18	2018/19
Tŷ Teifi	Teifi House	15	13	12
Brynnar Jones	Brynnar Jones	29	25	23
Tŷ Nazareth	Nazareth House	21	19	21
Y Gilfach-goch	Gilfach Goch	30	29	36

Mae rhaglen o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Nhŷ Teifi a Chanolfannau Oriau Dydd Alec Jones a Brynna Jones (un prynhawn bob wythnos) a Chanolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch, er bod y rhagleni yma yn gyfyngedig yn gyffredinol. Does dim gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Nhŷ Nazareth, Trewiliam. Mae gan y Cyngor wasanaethau lloeren anabledau dysgu yng Nghanolfannau Oriau Dydd Brynna Jones a'r Gilfach-goch.

There is a programme of activities held at Teifi House, Alec Jones, Brynna Jones (one afternoon each week) and Gilfach Goch although these programmes are generally quite limited. There are no activities held at Nazareth House in Williamstown. The Council has learning disability satellite services based at both Brynna Jones and Gilfach Goch Day centres.



## Pam mae angen i'r Cyngor wneud hyn?

Fel Cyngor, yn 2019, mae gyda ni ddyletswydd i fyfrio ar y gwasanaeth presennol a gofyn i ni ein hunain a yw e'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ein poblogaeth gyfredol, a'r cenedlaethau i ddod hefyd.

Mae'r nifer bach o bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau naill ai wedi aros yr un peth neu wedi gostwng yn araf. Yn ogystal â hyn, mae nifer bach o brydau bellach yn cael eu darparu bob dydd. Mae cost net pob pryd i'r Cyngor yn sylwedol ym mhob canolfan ac mewn un achos, y gost yw bron £17 y pryd.

Mae gofynion cynnal a chadw pob adeilad wedi cael eu hasesu gan adran Eiddo'r Cyngor, ac yn ôl amcangyfrifon byddai gofynion y pedwar adeilad yn costio'r Cyngor tua £500k dros y pum mlynedd nesaf.

Gan ystyried y nifer bach o ddefnyddwyr y gwasanaeth, mae'n deg dadlau nad yw'r model presennol yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o bobl hŷn yn ein cymunedau.

## Why does the Council need to do this?

As a Council, in 2019, we have a duty to reflect on the current service, and ask ourselves whether we think it reflects the needs and aspirations of not only our current population, but the generations to come.

The low usage levels at the facilities have either remained static or slowly declined with relatively few meals now being provided each day. The net cost per meal to the Council is significant at all centres and in one case is nearly £17 per meal.

The repair and maintenance requirements for each building have been assessed by Corporate Estates and it is estimated that over the next five years repair requirements of all four buildings would cost the Council approximately £500k.

On the evidence of the small number of service users it can reasonably be argued that the existing model no longer caters for the needs of the majority of older people in our communities.



## Ble byddwn i'n mynd yn lle'r Canolfannau Oriau Dydd?

Mae angen i ni archwilio cyfleoedd i ddarparu gwasanaeth arall, boed hynny trwy'r Canolfannau Cymuned sydd wrthi'n cael eu datblygu neu drwy sefydliadau presennol y trydydd sector/sefydliadau gwirfoddol.

## Where would I go instead?

We need to explore opportunities for alternative service delivery, either through the developing Community Hubs or through existing third sector/voluntary organisations.



## Beth yw Canolfan Gymuned?

Bydd gan Ganolfan Gymuned nifer o wasanaethau sy'n bodloni anghenion pobl leol o dan un to. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cynnwys gwasanaethau fel llyfrgell neu gaffi i'r gymuned sy'n annog pobl i'w defnyddio ac sy'n pwysleisio statws y Ganolfan yn ased gwerthfawr i'r gymuned. Bydd gan bob Canolfan ystafelloedd i'r gymuned (grwpiau cymuned neu bartneriaid) eu defnyddio. Bydd y Ganolfan yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar y safle. Bydd yn cysylltu â darpariaeth a chyfleusterau eraill ar draws y rhwydwaith ehangach o gymorth i'r gymuned yn yr ardal, sydd wedi'i gynnal gan sefydliadau cyhoeddus neu sefydliadau'r trydydd sector. Bydd y Ganolfan yn darparu cymorth o ran cyflogaeth trwy ragleni Cymunedau am Waith.

## What is a Community Hub?

A Community Hub will have a number of services located together that are responsive to local needs. These may include services such as a library or community cafe that encourage access and establishes the Hub's status as a valuable community asset. Each Hub will include flexible community rooms that can be used by community groups or partners. The Hub will provide information, advice and assistance on site and link with other facilities and provision across the wider network of community support in the area run by public or third sector organisations. The Hub will provide employment support through the Community for Work programmes.



## Sut mae modd cael dweud fy nweud?

Byddwn ni'n ymweld â'r canolfannau oriau dydd ar y dyddiadau canlynol a bydd modd i chi gael dweud eich dweud a gofyn cwestiynau

## How do I have my say?

We will visit the day centres on the following days and you can have your say and ask us questions

Canolfan Gymuned Oriau Dydd Community Day Centre		Dyddiadau / Dates (Amser: 12-2pm / Time: 12-2pm)	
Tŷ Teifi	Teifi House	30 Ionawr/January	8 Chwefror/February
Brynnar Jones	Brynnar Jones	1 Chwefror/February	6 Chwefror/February
Tŷ Nazareth	Nazareth House	13 Chwefror/February	1 Mawrth/March
Y Gilfach-goch	Gilfach Goch	15 Chwefror/February	27 Chwefror/February

Cewch chi hefyd lenwi holiadur ar-lein, yn yr achlysuron neu ysgrifennu aton ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad rhadbost isod:

Radbost RSBU-HJUK-LSSS

**Ymchwil ac Ymgynghoriad**  
Cysylltiadau Cyhoeddus a Strategaeth  
Y Pafiliynau,  
Parc Hen Lofa'r Cambrian,  
Cwm Clydach, Tonypandy,  
CF40 2XX

You can also fill in a questionnaire online or at the events or write to us at the Free post address below:

Freepost RSBU-HJUK-LSSS

**Research & Consultation**  
Public Relations & Strategy  
The Pavilions,  
Cambrian Industrial Park,  
Clydach Vale, Tonypandy,  
CF40 2XX



## Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r ymgynghoriad yn para 6 wythnos, felly mae digon o amser i bobl gael dweud eu dweud. Byddwn ni'n ystyried pob barn cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad terfynol.

## What happens next?

The consultation runs for 6 weeks, so there's plenty of time for people to have their say. All views will be taken into account before a report goes back to the Council's Cabinet for a final decision to be made.



HAVE  
YOUR DWEUD  
SAY EICH  
DWEUD

